Cydraddoldeb 2025
Rhwydwaith Ymgynghori'r Deyrnas Unedig ar gyfer Cydraddoldeb Anabledd

Ail Adroddiad
Mehefin 2008 - Mawrth 2009

Cynnwys

Hanes Cydraddoldeb 2025.....2

Cylch gwaith Cydraddoldeb 2025.....2

Aelodaeth 4

Cyngor i'r Llywodraeth yn ystod 2008-09 5

Ariannu Cydraddoldeb 2025 ar gyfer 2008-09 8

Cysylltu â Cydraddoldeb 2025 9

Noder: Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o fis Mehefin 2008 i fis Mawrth 2009. Bydd adroddiadau pellach yn cwmpasu'r flwyddyn o fis Ebrill i fis Mawrth.

Hanes Cydraddoldeb 2025
Sut y daethom i fodolaeth

Yn 2005, cyhoeddodd y Llywodraeth adroddiad o'r enw 'Gwella Cyfleoedd Bywyd i Bobl Anabl'. Gan amlinellu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer gwella bywydau pobl anabl erbyn 2025, roedd yn cynnwys yr argymhelliad y dylai pobl anabl fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu polisïau a'u gweithredu.

Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, sefydlwyd Cydraddoldeb 2025, sef Rhwydwaith Ymgynghori'r Deyrnas Unedig ar gyfer Cydraddoldeb Anabledd, ym mis Rhagfyr 2006.

Fe'i sefydlwyd fel corff annibynnol i gynnig cyngor ac arbenigedd i Lywodraeth San Steffan ar faterion cydraddoldeb anabledd, a dewiswyd yr enw i adlewyrchu addewid y Llywodraeth i gyflawni cydraddoldeb i bobl anabl erbyn 2025.

Ar hyn o bryd mae gan y grŵp 19 o aelodau ac mae'n cynrychioli'r DU gyfan - Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Penodwyd Cadeirydd parhaol ym mis Rhagfyr 2008.

Fe'i noddir gan (ond nid yw'n rhan o) y Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl, ac mae'n atebol i'r Gweinidog dros Bobl Anabl, Johnathan Shaw.

Cylch gwaith Cydraddoldeb 2025
Beth rydym yn ei wneud

Mae Cydraddoldeb 2025 yn gorff ymgynghorol. Mae'n cynnig gwybodaeth a chyngor ar gydraddoldeb anabledd i gynorthwyo'r Llywodraeth yn ei gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb anabledd erbyn 2025. Mae ganddo amrywiaeth eang o ddyletswyddau, sy'n cynnwys:

- sylwebu ar fentrau'r llywodraeth a chynghori ar gam cynnar ar yr effaith y bydd y rhain yn ei chael ar bobl anabl
- casglu barn pobl anabl, gan gynnwys y pobl o grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd a'r rhai nad ydynt yn disgrifio'u hunain fel anabl ond a gwmpesir o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.
- cynghori adrannau'r llywodraeth ar y ffordd y gallant ymgysylltu â phobl anabl mewn ffordd effeithiol ac ystyriol
- gweithio i raglen y cytunwyd arni ymlaen llaw gydag ystod o adrannau'r llywodraeth a phobl anabl
- dathlu amrywiaeth pobl anabl ac amlygu'r rhwystrau niferus at gyfranogi y mae llawer o bobl yn eu hwynebu

Sut y mae Cydraddoldeb 2025 yn cefnogi amcanion a pholisïau'r Llywodraeth

Sut rydym yn gwneud gwahaniaeth

Er mwyn dylanwadu ar bolisi a'i ddatblygu, mae'n hanfodol bod Cydraddoldeb 2025 yn cymryd rhan yng ngham cynharaf y dasg o ddatblygu polisi. Ers ei sefydlu, mae'r grŵp wedi gweithio'n galed i feithrin a datblygu ei gydberthnasau â gweision sifil a gweinidogion i sicrhau bod cydraddoldeb anabledd yn cael ei ystyried fel blaenoriaeth allweddol ym mhob rhan o lywodraeth.

Mae gan y grŵp Gynllun Gwaith blynyddol a ddatblygir gyda phobl anabl a swyddogion y llywodraeth, a chymeradwyir gan Johnathan Shaw, y Gweinidog dros Bobl Anabl.

Y prif feysydd yr ymdriniwyd â hwy yng Nghynllun Gwaith 2008/09 oedd:

1 Byw'n Annibynnol
2 Cydraddoldebau
3 Hawliau Dynol
4 Ymgysylltu.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cydraddoldeb 2025 wedi rhoi cyngor ar faterion sy'n amrywio o gyflogaeth a gwella gwasanaethau i bobl ifanc anabl, hyd at ddilysu Confensiwn y CU a'r Mesur Cydraddoldeb newydd. Am ragor o wybodaeth gweler tudalennau 7-9.

Aelodaeth
Pwy yw pwy?

Ar hyn o bryd mae 19 o aelodau gan y grŵp, gyda phob un ohonynt yn bobl anabl. Maent yn dod ag amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad o amrywiaeth o gefndiroedd gan gynnwys addysg, ymgyrchu, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

Penodir aelodau drwy ddull recriwtio agored ac mae pob aelod yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd.

Bydd aelodau unigol yn gweithio tua deuddydd y mis i gyflawni'r Cynllun Gwaith.

Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter i ddrafftio cyngor a thrafod materion polisi gyda swyddogion y llywodraeth.

Aelodau ar 31 Mawrth 2009

Cadeirydd – Rowen Jade

Is-gadeirydd – Zara Todd

Haji Saghir Alam
Simone Aspis
Prabhat Barot
Michelle Daley
Nick Danagher
Clenton Farquharson
Miro Griffiths
Kirsten Hearn
Eleanor Thoe Lisney
Dave McCormick
Gary McGladdery
Sarah Newman
Andy Rickell
Richard Rieser
Steve Scott
Katherine Thomas
Fiona Wallace

Cyngor i'r Llywodraeth yn ystod 2008-09
Beth y gwnaethom ei gyflawni

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn (Mehefin 2008 - Mawrth 2009) canolbwyntiodd Cynllun Gwaith Cydraddoldeb 2025 ar bedwar prif faes:

1 Byw'n Annibynnol
2 Cydraddoldebau
3 Hawliau Dynol
4 Ymgysylltu.

Ymgysylltu

Mae ymgysylltu'n ymwneud â phob un o feysydd gwaith Cydraddoldeb 2025 er mwyn cynnwys pobl anabl a cheisio eu barn. Caiff y farn hon ei hymgorffori i gyngor a roddir i'r Llywodraeth ar bolisïau a gwasanaethau.

Mae'r grŵp wedi ymgysylltu â phobl anabl mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys drwy ei Gyfarfod Cyhoeddus Cenedlaethol Blynyddol yn Birmingham, ei ddigwyddiadau rhanbarthol ledled y DU (Cernyw, Newcastle, Walsall, Darlington ac Aberdeen) a thrwy ei wefan a'i flog.

Byw'n Annibynnol

- Rhoddodd Cydraddoldeb 2025 gyngor a thystiolaeth yn ystod camau terfynol proses ymgynghori y Strategaeth Byw'n Annibynnol, ac yn y gwaith o ddatblygu ymateb y Llywodraeth. Yn sgîl hyn, cyd-gynhyrchodd y grŵp waith drafftio a gweithredu'r Strategaeth Byw'n Annibynnol gyda'r Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl. Roedd Cydraddoldeb 2025 yn falch o ddod yn aelod o'r grŵp craffu newydd ac mae'n parhau i roi cyngor ar y Strategaeth hon.

- Rhoddodd y grŵp gyngor i weinidogion a swyddogion yn yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ym mis Mehefin 2008 wrth i'r Papur Gwyrdd Diwygio Lles gael ei ddatblygu. Dadleuodd Cydraddoldeb 2025 yn llwyddiannus i 'gynhwysiant' gael ei ystyried fel elfen bwysig ar gyfer cyflogi pobl anabl yn llwyddiannus. Rhoddodd hefyd gyngor a thystiolaeth bellach ar fentrau polisi eraill ac mae bellach wedi sefydlu trafodaeth barhaus gyda swyddogion ar draws DWP.

- Rhoddodd y grŵp gyngor i weinidogion a swyddogion yn yr Adran Iechyd ar nifer o faterion gan gynnwys y Prosiect Sefydliadau a Arweinir gan Ddefnyddwyr a Diwygio Gofal Cymdeithasol. Mae Cydraddoldeb 2025 bellach yn aelod o Bapur Gwyrdd Gofal a Chymorth yr Adran Iechyd - y Gweithgor Cydraddoldeb.

- Sefydlodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau y Grŵp Ymgynghori Hawl i Reoli i roi cyngor i'r Llywodraeth a agweddau ar y Papur Gwyrdd Diwygio Lles. Roedd Cydraddoldeb 2025 yn rhan o'r gwaith hwn, gan arwain at:

    o cael gwahoddiad i ymuno â'r Grŵp Cynghori

- ei gyngor yn cael ei ystyried yn y Papur Gwyn dilynol 'Codi disgwyliadau a chynyddu cefnogaeth: diwygio lles ar gyfer y dyfodol', lle cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n deddfu ar Hawl i Reoli ar gyfer pobl anabl ac y câi ei dreialu mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol ar brawf o 2010

- ei gyngor yn dylanwadu ar y cynlluniau a wnaeth y Llywodraeth ar ei hymgynghoriad cenedlaethol ar Hawl i Reoli. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 30 Medi 2009 ac mae Cydraddoldeb 2025 yn defnyddio ei gyfarfodydd ymgysylltu i weld beth yw barn pobl ifanc ar y mater hwn. Bydd yn parhau i roi cyngor i'r Llywodraeth ar y cynlluniau i dreialu'r Hawl i Reoli.

Cydraddoldebau

- Cynorthwyodd y grŵp adrannau'r llywodraeth â'r gwaith o ddatblygu eu hadroddiadau Ysgrifennydd Gwladol cyntaf ar y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Er enghraifft, helpodd Cydraddoldeb 2025 i Gymunedau a Llywodraeth Leol godi proffil ac ymwybyddiaeth o'r adroddiad ar draws y sefydliad yn y digwyddiad lansio. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd cyngor i Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth a arweiniodd at sefydlu gweithgor o bobl anabl i helpu Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth i ddatblygu ei chynllun ymhellach.

- Rhoddodd y grŵp gyngor i Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth ar y Dangosyddion Perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus a arweiniodd at estyn gwahoddiad i Cydraddoldeb 2025 i ymuno â Grŵp Cyfeirio Prosiect Triniaeth Annheg Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth.

- Rhoddodd y grŵp gyngor i'r Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl a Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth ar faterion amrywiol yn ymwneud â'r Mesur Cydraddoldeb.

Hawliau Dynol

- Cynhaliodd y grŵp gyfres o gyfarfodydd cyfrinachol gyda phedair o adrannau'r llywodraeth a oedd yn cynnig trefnu cymalau i weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, unwaith y caiff ei ddilysu. Rhoddodd Cydraddoldeb 2025 gyngor a thystiolaeth yn ymwneud â'r cymalau arfaethedig hyn.

- O ganlyniad i'r cyfarfodydd â swyddogion:

    - Trefnodd Cydraddoldeb 2025 ddigwyddiad ymgysylltu â phobl anabl ym mis Hydref gan ganolbwyntio'n benodol ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Helpodd hwn i'r grŵp roi cyngor i'r Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl ar ddilysu a gweithredu Confensiwn y CU

    - Rhoddodd Cydraddoldeb 2025 gynor i Johnathan Shaw, y Gweinidog dros Bobl Anabl, gyda chyngor ar y camau nesaf at ddilysu, monitro a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, cyn ei ymddangosiad ar y Cyd-Bwyllgor ar Hawliau Dynol.

Y tu hwnt i feysydd allweddol y Cynllun Gwaith, gwnaeth Cydraddoldeb 2025 y canlynol:

- rhoi cyngor i swyddogion o Lywodraeth Norwy ar gynnydd y gwaith o weithredu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn y DU, a rhoddodd argymhellion am oblygiadau Deddf Gwahaniaethu arfaethedig Norwy, y bwriedir ei chyflwyno'n raddol yn dechrau o fis Ionawr 2009.

- rhoi tystiolaeth i Gynhadledd y Llefarydd ym mis Ionawr 2009 o ran y nifer anghymesur o isel o bobl anabl yn San Steffan, ac argymell sut y dylid cynyddu'r niferoedd hyn.

Ariannu Cydraddoldeb 2025 ar gyfer 2008-09
Sut y gwnaethom wario ein cyllideb

Ariennir Cydraddoldeb 2025 gan y Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl. Pennwyd cyllideb o £546,000 i'r grŵp yn ystod blwyddyn ariannol 2008-09. Cyfanswm y gwariant yn ystod y cyfnod hwn oedd £506,000.

Mae'r aelodau yn benodeion cyhoeddus ac o ganlyniad cânt ffi ar gyfer cymryd rhan yn y grŵp. Telir ffioedd ar gyfradd ddyddiol neu fesul awr (fel y bo'n briodol) ar gyfer paratoi ar gyfer cyfarfodydd a'u mynychu (gan gynnwys amser teithio), a chynnal gweithgareddau/tasgau priodol yn ôl yr angen. Gall aelodau hawlio ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn. Mae'r ffioedd yn £193 (cyfradd ddyddiol), neu gyfradd fesul awr o £27.50. Mae'n ofynnol i'r aelodau weithio tua 20-25 diwrnod y flwyddyn.

Ffi flynyddol swydd y Cadeirydd yw £40,000. Penodir y Cadeirydd y weithio 100 o ddiwrnodau'r flwyddyn.

Cysylltu â Cydraddoldeb 2025
Sut y gallwch gysylltu

Os ydych yn berson anabl, yn fudiad anabledd neu'n was sifil rydym am glywed gennych.

Mae pobl anabl wrth wraidd ein gwaith. Mae'n hanfodol ein bod yn clywed eich barn ar ystod eang o faterion i gael darlun cywir o'r hyn sy'n bwysig i bobl anabl yn y DU heddiw.

Mae Cydraddoldeb 2025 yn ymrwymedig i weithio gyda'r llywodraeth i wella bywydau pobl anabl. Rydym yn atebol i reolau Chatham House a gallwn roi cyngor, yn gyfrinachol yn ôl yr angen. Os ydych yn gweithio i adran o'r llywodraeth a'ch bod o'r farn y gallem ychwanegu gwerth at eich gwaith ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, mae croeso i chi gysylltu â ni.

E-bost: eq2025.secretariat@dwp.gsi.gov.uk

Ffôn: 0845 460 2025

Yn y post: Equality 2025
c/o The Secretariat
Ground Floor
Caxton House
6-12 Tothill Street
London
SW1H 9NA

Mae gennym hefyd wefan yn www.odi.gov.uk/equality2025 ac fe'ch anogwn i rannu eich barn ar ein blog - equality2025.wordpress.com